Newyddion gan Cymwysterau Cymru – Gorffennaf 2019

News from Qualifications Wales – July 2019

New Chair for Qualifications Wales

The Welsh Government has announced the appointment of David Jones OBE, Chief Executive of Coleg Cambria, as the new Chair of Qualifications Wales.

A Chartered Engineer, he takes up his new role in October. David has over 30 years of experience working in Further and Higher Education. He was first appointed as Principal/Chief Executive of Deeside College in 2004 and has since led the three mergers which led to the creation of Coleg Cambria in 2013. David's current external appointments include chairing the Deeside Enterprise Zone Board, the newly formed AMRC Cymru Board, the CBI North Wales Committee and he is vice chair of the Collab Group of leading UK colleges. He is also a member of the Welsh Government's European Advisory Group. David was appointed as a Deputy Lieutenant of Clwyd in March 2010 and also won the TES UK FE Leader of the Year Award in 2017. You can read more information on our **website**.

Major shake-up to construction and building services qualifications in Wales

We're pleased to announce that City & Guilds, with EAL as a sub-contractor, have been selected to provide a suite of new post-16 qualifications in construction and building services engineering (including Apprenticeship qualifications) for learners in Wales from

September 2021.

The new qualifications will ensure learners develop a broad understanding of the sector as a whole, and equip them to make career choices that match their skills and interests. You can read more about them here. To find out how you can be involved in our work, please contact us.

We're currently seeking to appoint experts in construction and building services to help us review new qualifications submitted for approval. If you have knowledge and understanding of the sector, together with teaching or assessment experience (in schools, further or higher education, or in the workplace), then we'd like to hear from you. You can find more information about the roles (including how to apply) here.

Health & Social Care countdown to first teaching in September

Our work to reform Health & Social Care and Childcare qualifications is continuing; all qualifications planned for first teaching from September 2019 have now been approved, and are available to teach from this September.

If your centre is currently offering, or planning to offer, Health and Social Care or Childcare qualifications to learners from this September (other than the GCSE Health and Social Care, and Childcare), you will need to become an approved centre for the new qualifications with the Consortium (even if you already registered with either, or both awarding bodies). If you haven't yet applied for such approval, we urge you to start this process as soon as possible. You can find details about applying to be an approved centre **here**, and further information in our letter to centres.

Skills Challenge Certificate: latest news

It's been a busy time for all things Skills Challenge Certificate (SCC) since our last update: in April, the National Assembly's Children, Young People and Education Committees (CYPEC) inquiry into the status of the Welsh Bacc was published, and we've also continued our work on refining the qualification. We've updated our blog with an overview of all the news and progress that's been made - you can read it **here**.

A 360-degree look at this summer's exams

Have you visited our summer exams web pages yet? Our **Exams 360** pages contain all the information you need on this year's exams, including entry statistics, blogs and a series of articles taking a closer look at a range of topics from reformed qualifications to marking and myth busting.

We'll be uploading new content weekly throughout July and August, and the website will include a detailed analysis of A level and GCSE results when they are published, so bookmark Exams 360, and make sure you visit the site regularly for the latest news.

We want to hear your views!

Do you enjoy reading The Slate? What kind of subjects do you find most interesting? Do you forward The Slate to your colleagues?

We're constantly looking at ways to improve how we communicate with you - and that's why we want to hear your views. We've set up a simple online survey to find out what you think about The Slate, your ideas on how it can be improved and whether you'd prefer other ways for us to communicate with you. It should take no more than 10 minutes to **complete the survey** – we look forward to hearing from you!

Cadeirydd newydd i Cymwysterau Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod David Jones, Prif Weithredwr Coleg Cambria, wedi cael ei benodi'n Gadeirydd newydd Cymwysterau Cymru.

Ac yntau'n Beiriannydd Siartredig, mae fe'n dechrau yn y swydd newydd mis Hydref. Mae gan David fwy na 30 mlynedd o brofiad o weithio ym maes Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Cafodd ei benodi'n Bennaeth/Prif Weithredwr Coleg Deeside gyntaf yn 2004 ac ers hynny mae wedi arwain y tair proses uno a arweiniodd at greu Coleg Cambria yn 2013. Mae penodiadau allanol presennol David yn cynnwys cadeirio Bwrdd Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, Bwrdd AMRC Cymru a ffurfiwyd yn ddiweddar, pwyllgor Gogledd Cymru o'r CBI, ac mae'n is-gadeirydd y Grŵp Cydweithredol sy'n cynnwys y colegau blaenllaw yn y DU. Mae hefyd yn aelod o Grŵp Cynghori ar Ewrop Llywodraeth Cymru. Penodwyd David yn Ddirprwy Raglaw Clwyd ym mis Mawrth 2010 ac enillodd y wobr am Arweinydd Addysg Bellach y Flwyddyn y DU TES yn 2017, hefyd. Gallwch ddarllen rhagor o wybodaeth ar ein **gwefan**.

Ad-drefnu mawr i gymwysterau adeiladu a gwasanaethau adeiladu yng Nghymru

Rydym yn falch o gyhoeddi bod City & Guilds, gydag EAL fel is-gontractwr, wedi cael eu dewis i ddarparu cyfres o gymwysterau ôl-16 newydd mewn adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu (gan gynnwys cymwysterau Prentisiaeth) i ddysgwyr yng Nghymru o fis Medi 2021.

Bydd y cymwysterau newydd yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth eang o'r sector yn ei gyfanrwydd, ac yn eu harfogi i wneud dewisiadau gyrfa sy'n gweddu i'w sgiliau a'u diddordebau. Gallwch ddarllen rhagor amdanyn nhw yma. I gael gwybod mwy am sut y gallwch gymryd rhan yn ein gwaith, gallwch gysylltu â ni.

Ar hyn o bryd, rydym yn ceisio penodi arbenigwyr ym maes adeiladu a gwasanaethau adeiladu i'n helpu i adolygu cymwysterau newydd sydd wedi cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo. Os oes gennych chi wybodaeth a dealltwriaeth o'r sector, ynghyd â phrofiad o ddysgu neu asesu (mewn ysgolion, addysg bellach neu addysg uwch, neu yn y gweithle), yna hoffem glywed gennych chi. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y rolau (gan gynnwys sut i ymgeisio) yma.

Edrych ymlaen at ddysgu cymwysterau newydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y tro cyntaf ym mis Medi

Mae ein gwaith i ddiwygio cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn parhau; mae pob cymhwyster a gynlluniwyd i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2019 bellach wedi eu cymeradwyo, ac maen nhw ar gael i'w dysgu o fis Medi.

Os yw'ch canolfan yn cynnig neu'n bwriadu cynnig cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu Gofal Plant i ddysgwyr o fis Medi (heblaw am TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant), bydd angen i chi ddod yn ganolfan gymeradwy ar gyfer y cymwysterau newydd gyda'r Consortiwm (hyd yn oed os ydych eisoes wedi cofrestru gyda'r naill neu'r llall, neu'r ddau gorff dyfarnu). Os nad ydych wedi gwneud cais am gymeradwyaeth o'r fath eto, rydym yn eich annog i ddechrau'r broses yma cyn gynted â phosibl. Gallwch ddod o hyd i fanylion am wneud cais i fod yn ganolfan gymeradwy yma, a rhagor o wybodaeth yn ein llythyr at ganolfannau.

Tystysgrif Her Sgiliau: newyddion diweddaraf

Mae hi wedi bod yn adeg brysur i bopeth yn ymwneud â Thystysgrif Her Sgiliau ers ein diweddariad diwethaf: ym mis Ebrill, cafodd ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol i statws Bagloriaeth Cymru ei gyhoeddi, ac rydyn ni hefyd wedi bod yn parhau â'n gwaith o fireinio'r cymhwyster. Rydyn ni wedi diweddaru ein blog gyda throsolwg o'r holl newyddion a chynnydd sydd wedi'i wneud - gallwch ei ddarllen **yma**.

Golwg 360 gradd ar arholiadau'r haf

Ydych chi wedi ymweld â'n tudalennau gwe ar arholiadau'r haf eto? Mae ein tudalennau **Arholiadau 360** yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen arnoch ar arholiadau eleni, gan gynnwys ystadegau cofrestru, blogiau a chyfres o erthyglau sy'n edrych yn fanylach ar amrywiaeth o bynciau o gymwysterau diwygiedig i farcio a chwalu'r mythau.

Byddwn yn uwchlwytho cynnwys newydd bob wythnos yn ystod Gorffennaf ac Awst, a bydd y wefan yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganlyniadau Safon Uwch a TGAU pan fyddan nhw'n cael eu cyhoeddi, felly cofiwch wneud nodyn o Arholiadau 360, a gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â'r safle'n rheolaidd am y newyddion diweddaraf.

Rydyn ni eisiau clywed eich barn!

Ydych chi'n mwynhau darllen Y Llechen? Pa fath o bynciau sydd fwyaf diddorol yn eich barn chi? Fyddwch chi'n anfon Y Llechen ymlaen i'ch cydweithwyr?

Rydyn ni'n chwilio'n gyson am ffyrdd i wella sut rydyn ni'n cyfathrebu â chi - a dyna pam ein bod ni am glywed eich barn. Rydyn ni wedi creu arolwg syml ar-lein er mwyn cael gwybod beth yw eich barn am y Llechen, eich syniadau ar sut y gallwn ei wella, ac a fyddai'n well gennych i ni gyfathrebu â chi mewn ffyrdd gwahanol. Ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i chi **gwblhau'r arolwg** - edrychwn ymlaen at glywed gennych!

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click **here.**

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch **yma.**

Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg
The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector

Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:
You can follow us on social media for the latest news on our work:

Copyright © 2019 Qualifications Wales All rights reserved.

Contact us:
comms@qualificationswales.org

.